**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Craffu - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 15 Ebrill 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd T J Hennegan (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | P K Jones | S M Jones |
| I E Mann | S Pritchard | M Sherwood |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu |
| Gareth Pritchard | Cydlynydd Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C Anderson a/ac H M Morris
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Ymddiheuriadau**

- Y Cyng. Cyril Anderson
- Y Cyng. Hazel Morris

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

4 **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Trosolwg a Diweddariad**

- Mae cydleoli gwasanaethau yn gweithio'n dda iawn ac yn caniatáu i swyddogion nodi problemau'n gynnar er mwyn atal cynnydd
- Erbyn hyn mae ymagwedd fwy cyfannol tuag at ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae cronfa ddata sy'n cofnodi'r tramgwyddwyr a'r bobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro
- Mae rhai achosion wedi newid sut yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi creu llawer mwy o ymagwedd bartneriaeth

- Mae cynllun 4 cam wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae ymagwedd integredig wedi creu un pwynt cyswllt ar gyfer problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae'n golygu bod yr holl dimau perthnasol megis gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, Tîm am y Teulu ac ati yn cymryd rhan yn y cam cychwynnol i atal dyblygu
- Mae'r tîm yn cyflwyno Contractau Ymddygiad Derbyniol (ABCs)
- Mae'r tîm tai yn ymdrin â gwaharddebau mewn perthynas â phobl sydd â thenantiaeth cyngor
- Anfonir tua 30 o lythyrau rhybudd bob mis a dim ond tua 2 - 3% sy'n cael eu dwysáu - ymagwedd lwyddiannus iawn
- Mae'r tîm yn cydlynu ymatebion priodol - mae cefnogaeth ar gyfer y dioddefwr a'r tramgwyddwr
- Nid oes gan rai heriau rhwng anghydfodau sifil agwedd droseddol ac nid ydynt yn faterion i'r heddlu, a gall y cyngor weithredu os yw'r tenant yn un o denantiaid tai'r cyngor yn unig.
- Mae cydberthynas rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a thlodi
- Mae tystiolaeth yn dangos bod llai o droseddu mewn cymdeithasau mwy cyfartal
- Mae llai o adnoddau i bobl ifanc yn effeithio ar gymunedau
- Bydd yn parhau i wella gweithio'n agos
- Model diogelu newydd yn edrych ar agweddau anstatudol e.e. modelau cymdeithasol/amgylcheddol
- Cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 'Cymunedau Cryfach'
- Edrych ar sut gall cymunedau weithio gyda'i gilydd e.e. Cydlynwyr Ardaloedd Lleol
- Gweithio'n agos gyda'r brifysgol
- Mae rhai prosiectau yn ymwneud â chymdogion da lle mae tenantiaid newydd yn cael eu cyflwyno i'w cymdogion
- Mae gweithio gyda chymunedau'n bwysig iawn
- Mae clywed bod ymagweddau cydweithredol ar waith yn galonogol
- Rhan fach o agenda cynhwysiad cymdeithasol ehangach
- Mae diogelu data'n bwysig iawn
- Mae digonedd o waith da yn cael ei wneud a'i gydlynu
- Mae ysgolion ac addysg hefyd yn cael eu cynnwys mewn sawl cam
- Cofnodir ystadegau i olrhain mannau sy'n peri problemau dro ar ôl tro a thueddiadau
- Mae'n anodd rhagweld ymddygiad gwrthgymdeithasol ac olrhain tueddiadau am eu bod yn oddrychol iawn
- Gellir olrhain gweithgarwch fesul ward a dyrannu cymorth ac adnoddau yn unol â hynny
- Rhai problemau yn ymwneud â defnyddio cyffuriau a chyfarpar yn Uplands - adborth i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cynllunio Ardal
- Mae iechyd meddwl yn broblem barhaus ac mae trafodaethau ar lefel strategol yn parhau
- Mae atal troseddau wedi'i gynnwys yng nghamau cynllunio datblygiadau e.e. canolfannau siopa
- Roedd maint a natur gydweithredol y gwaith wedi creu argraff ar y panel

## 5 Cyfle i'r panel drafod yr adroddiad

- Trafododd y panel yr hyn a glywon nhw a'r cyflwyniad a gawson nhw a phenderfynu ar gynnwys eu llythyr

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm

**Cadeirydd**